

# Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

Maniffesto 2010 San Steffan

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

# Fformatau **eraill**

Gallwch hefyd amrywio'r print arlein
yn www.plaidcymru.org

Byddwn yn falch o ddarparu copi o'r
maniffesto hwn ar cd neu gaset neu
mewn print bras.

Er mwyn cael copi mewn fformat arall:
E-bostiwch: polisi@plaidcymru.org
Ffôn: 029 20 472272

© Plaid Cymru The Party of Wales
ISBN 0-905077-83-0
Mawrth 2010

Argraffwyd gan: blah d blah,
Brunswick House, Riverside Business Park,
Benarth Road, Conwy LL32 8UB.

Hyrwyddwyd gan Blaid Cymru
Ty Gwynfor, Llys Anson, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

Ar adeg pan fo pobl yng Nghymru yn teimlo ar eu mwya dig a siomedig gyda'r un hen wleidyddiaeth yn San Steffan, mae mwy a mwy ohonom yn troi at y Blaid am ein bod yn gwybod fod Plaid Cymru yn cynnig rhywbeth gwahanol. Maent yn gwybod fod gwerthoedd ein plaid wleidyddol yn cyd-fynd â'u gwerthoedd hwy. Gwerthoedd tegwch a chyfiawnder cymdeithasol yw'r rhain, sef sylfaen y Gymru fodern. Pa blaid arall yng Nghymru all ddweud yr un peth? Mae Llafur wedi dilyn polisïau Torïaidd yn slafaidd ers tair blynedd ar ddeg, ac mae Cameron wedi modelu ei hun a'i wleidyddiaeth ar Tony Blair.

Does dim modd i ni ymddiried yn Llafur na'r Torïaid i roi anghenion cymunedau Cymru cyn anghenion Dinas Llundain. Fe ŵel Cymru doriadau llym mewn gwario cyhoeddus o ganlyniad i gamreolaeth Llafur ar yr argyfwng ariannol, ac ni allwn ganiatáu i Lafur na'r Torïaid wneud llanast mwy o economi Cymru a thanseilio ein gwladwriaeth les. Dyma'r amser i sicrhau llais cryfach i Gymru yn San Steffan gyda mwy o ASau Plaid Cymru - i amddiffyn swyddi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae pobl Cymru yn cefnogi pwerau deddfu cryfach i'r Cynulliad. Maent am weld diwedd ar system ddrud, cymhleth a gwastraffus bresennol yr LCO fel cam pellach at well democratiaeth Gymreig. Geilw'r Blaid ar i unrhyw lywodraeth newydd yn San Steffan gytuno i gais am refferendwm ar bwerau deddfu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn disgwyl i unrhyw lywodraeth newydd gydnabod barn ddemocrataidd y Cynulliad Cenedlaethol. Cred Plaid Cymru hefyd, ymhen amser, y gall mwy o bwerau gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gychwyn gyda'r heddlu a chyfiawnder troseddol, ac yna ynni a darlledu. Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phobl Cymru a throstynt i greu economi cryfach, cymunedau diogelach, byd mwy diogel ac ateb i'r argyfwng hinsawdd.

Polisïau'r llywodraeth Lafur yn San Steffan sydd wrth wraidd yr argyfwng ariannol a'r dirwasgiad, sef cefndir yr Etholiad Cyffredinol hwn yn y DG. Ers blynyddoedd, mae Llafur wedi teilwrio eu polisïau economaidd tuag at Ddinas Llundain a'r sector ariannol ar draul y sector gweithgynhyrchu a sectorau eraill. Cefnogodd y Torïaid yr agwedd hon. Yn wir, yr unig feirniadaeth oedd ganddynt oedd nad oedd yn ymgreinio digon i'r Ddinas. O'r diwrnod cyntaf un, pan roes Llafur reolaeth i Fanc Lloegr dros chwyddiant, ond dim targedau ar gyfer cyflogaeth, cyfeiriwyd yr economi at y sefydliadau ariannol, nid i'r lles cyhoeddus. Cyrhaeddwyd y gwaelod pan gynigiodd Banc Brenhinol yr Alban, sydd 70% ym meddiant y cyhoedd, fonysau o £1.5 biliwn - digon i redeg pob hosbis yn y DG am flwyddyn gyfan - ac yn lle dweud y drefn wrth gyfarwyddwyr y banc, ildiodd Llafur eto fyth i awch barus y bancwyr. Mae Plaid Cymru yn gwybod fod yn rhaid i ni ymdrin â'r diffyg ariannol a adawyd gan Lafur. Ond rhaid i ni wneud hyn mewn ffordd deg a chyfiawn, sy'n rhoi baich y costau ar y sawl fedr ei fforddio, yn hytrach na manteisio eto ar y gwannaf mewn cymdeithas. Egwyddorion tegwch a chyfiawnder fydd wrth wraidd ein hagwedd ni at y diffyg, a bydd ein gwaith yn San Steffan yn adlewyrchu hyn.

Mae Plaid Cymru yn caru cymunedau Cymru ac yn malio am greu gwell dyfodol i'w phlant. Mae'r Blaid o hyd yn sefyll dros fuddiannau Cymru. Felly, pwy fydd yn gwneud gwahaniaeth i Gymru? Aelod Llafur, Toriaidd neu Lib-Dem eto fyth i ufuddhau i'r meistri yn Llundain? Llais San Steffan yng Nghymru ydyn nhw.

Bydd ASau Plaid Cymru yn wastad yn llais Cymru yn San Steffan.



IEUAN WYN JONES AM
Arweinydd, Plaid Cymru

# Plaid.
# Gwahaniaeth i Gymru.

Mewn etholiad fydd yn agos iawn a chyda senedd grog yn wir bosibilrwydd, ni fu'r Blaid erioed o'r blaen mewn sefyllfa mor gryf i drafod y fargen orau oll i Gymru. Dim ond Plaid Cymru fydd yn gwthio Cymru i frig y rhestr flaenoriaethau yn Llundain.

Blaenoriaethau Cymru yw blaenoriaethau Plaid Cymru

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.




# Amddiffyn Cyllideb Cymru - 300 miliwn o resymau i bleidleisio dros y Blaid

1

Mae pleidiau Llundain yn cynllunio toriadau milain i gyllideb a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. A hyn oll ar adeg pan fo'r arbenigwyr yn cydnabod fod Cymru eisoes yn cael bargen wael gan Lywodraeth Llundain sy'n ei chadw yn fyr o £300 miliwn bob blwyddyn.

Rhaid amddiffyn ein gwasanaethau addysg ac iechyd rheng-flaen yng Nghymru rhag y toriadau llym hyn. Dim ond Plaid Cymru wnaiff hynny. Meddyliwch am y peth…

Gyda senedd grog yn wir yn bosibilrwydd, ni fu'r Blaid erioed o'r blaen mewn sefyllfa mor gref i amddiffyn Cymru rhag y toriadau llym hyn. Fe rown amddiffyn Cyllideb Cymru ar frig ein rhestr flaenoriaethau.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.





# Pensiwn Byw Plaid Cymru - pensiwn y gallwch fyw arno.

2

Mae gormod o bensiynwyr heddiw yn gorfod dewis rhwng bwyta a gwresogi - allwn ni ddim caniatáu i hyn barhau. Mae llawer o bensiynwyr bregus heb fod yn cael y credydau pensiwn ychwanegol fyddai'n eu cadw uwchlaw llinell tlodi. Byddai cynllun Pensiwn Byw Plaid Cymru yn eu gwarchod.

Gan ddechrau gyda'r rhai mwyaf bregus dros 80 oed, byddai ein cynllun yn codi pensiwn person sengl i o leiaf £130 yr wythnos ac yn codi pensiwn pâr i £202 yr wythnos. Dylai hyn gael ei gyflwyno wedyn i bob pensiynwr dros amser wrth i arian cyhoeddus ganiatáu.

Mae'r pleidiau Llundeinig eisoes wedi penderfynu beth sy'n bwysig iddynt hwy - y ddinas, y banciau a phleidleisiau canol Lloegr. Mae blaenoriaethau Plaid Cymru yn wahanol iawn - byddwn ni'n rhoi tegwch i'n pensiynwyr yn gyntaf. On'd yw hi ond yn deg i'r bobl fwyaf cyfoethog yn ein cymdeithas allu talu tipyn bach mwy i helpu'r rhai mwyaf bregus? Meddyliwch am y peth…

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.



# Gofalu am ein milwyr - mae’n bryd dod â hwy adref

3

Plaid Cymru oedd yr unig brif blaid i wrthwynebu’r rhyfeloedd yn Irac ac Afghanistan o’r cychwyn cyntaf. Rydym yn falch o fod wedi glynu at ein hegwyddorion bryd hynny, ac yr ydym yn falch yn awr o’n hymgyrch i ddod â’n bechgyn a’n merched yn ôl o Afghanistan.

Er cywilydd i’r Llywodraeth, mae wedi esgeuluso ein milwyr a’n cyn-filwyr. Maent wedi bod yn barod i’w hanfon i ryfel, ond nid i roi’r offer iawn iddynt nac edrych ar eu holau. Mae gormod o filwyr a chyn-filwyr yn dioddef salwch corfforol a meddyliol tymor-hir o ganlyniad i’w gwasanaeth.

Mae gan y Llywodraeth ddyletswydd i edrych ar eu holau, a bydd y Blaid yn parhau i ymgyrchu i roi gofal a chefnogaeth i filwyr, cyn-filwyr a’u teuluoedd.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.





# Helpu busnesau Cymreig i dyfu

4

Er mwyn i Gymru allu llwyddo, rhaid i'n busnesau cynhenid lwyddo. Yn anffodus, mae gormod o fusnesau Cymreig yn ei chael yn anodd cael cyllid gan y banciau i'w helpu i ehangu a ffynnu.

Byddai Plaid Cymru yn sefydlu cronfa cyfalaf menter arbennig i roi'r arian y mae ar ein busnesau ei angen i ddatblygu syniadau newydd, i ehangu ac i greu swyddi cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru.

Mae ar ein busnesau a'n cartrefi hefyd angen seilwaith TG a chyfathrebu sy'n addas i'r 21ain ganrif. Mae llawer rhan o Gymru yn dal heb allu cael band llydan na gwasanaeth ffôn symudol llawn - mae hyn yn dal ein busnesau yn ôl. Rydym eisiau blaenoriaethu rhoi mynediad at fand llydan ar frig y rhestr, gyda'r nod o roi band llydan cyflym eithriadol i'n cwmnïau a'n cartrefi. Byddwn hefyd yn ymgyrchu i wneud rhannu rhwydweithiau ffonau symudol yn orfodol - gan roi gwell gwasanaeth ffonau symudol i bobl ar draws Cymru.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.



# Cynllun gweithredu amgylcheddol - Cymru ar flaen y gad

5

Yr argyfwng hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i ddynoliaeth. Rhaid i ni leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a newid y ffordd yr ydym yn cynhyrchu ynni ac yn ei ddefnyddio. Gallai cynllun amgylcheddol newydd Plaid Cymru helpu Cymru i arwain y ffordd yn y chwyldro gwyrdd hwn, gan greu miloedd o swyddi gwyrdd o safon.

Byddai ein cynllun gweithredu yn dod â rheilffyrdd trydan cyflym i Gymru, yn datblygu seilwaith ar gyfer cerbydau trydan a newid y grid cenedlaethol i annog cynhyrchu ynni ar raddfa fechan ledled y wlad.

Byddai buddsoddi mewn ffermio cymunedol yn cynhyrchu mwy o fwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol. Buasem yn cyflwyno rhaglen genedlaethol o insiwleiddio cartref i arbed ynni, ac yn creu trydan gwyrdd trwy brosiectau ynni adnewyddol.

I Gymru arwain y chwyldro gwyrdd hwn, mae arnom angen yr arfau at y gwaith. Rydym eisiau i benderfyniadau ar gynhyrchu ynni gael eu cymryd yn nes at y bobl - yn ein Cynulliad Cenedlaethol ni, yn hytrach nac yn San Steffan.

.

Plaid.
Gwahaniaeth
i Gymru.



# Pwerau go-iawn i wneud gwahaniaeth

## 6

Rydym eisiau i'n Cynulliad Cenedlaethol gael yr arfau mae arni eu hangen i wneud y gwaith yn iawn - i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl. I wneud hyn, mae ar Gymru angen pwerau go-iawn.

Sut gall hi fod yn iawn fod yn rhaid i ni aros am flynyddoedd i San Steffan gytuno cyn i ni fedru gweithredu i wella bywydau pobl yma yng Nghymru? Pam y dylai ein gofalwyr, ein mwyaf bregus neu ein plant orfod aros?

Er bod ein Cynulliad Cenedlaethol wedi pleidleisio i roi refferendwm i bobl Cymru, bydd yn rhaid i Lywodraeth San Steffan gytuno i gais gennym ni cyn i hyn ddigwydd. Dyna pam y bydd Plaid Cymru yn galw ar i unrhyw lywodraeth newydd yn San Steffan gytuno i refferendwm er mwyn gofalu y medr ein Cynulliad Cenedlaethol fwrw ymlaen â'r gwaith a gwneud gwahaniaeth i fywydau pob-dydd pobl.

Plaid.
Gwahaniaeth
i Gymru.




# Trin y diffyg a mynd i'r afael â banciau anghyfrifol

7

Rhaid mynd i'r afael â'r diffyg ariannol a adawyd gan Lafur, ond yn yr amser anodd sydd o'n blaenau, mae dyletswydd arnom hefyd i amddiffyn y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas.

I ddechrau trin y diffyg, buasem yn rhoi stop ar unwaith ar gynlluniau gwario costus a diangen y Llywodraeth fel cardiau adnabod ac adnewyddu prosiectau amddiffyn newydd fel Trident. Buasem yn mynnu fod y bobl gyfoethog iawn yn talu tipyn bach mwy, a buasem yn tynhau'r rheolau fel na allai'r bobl fwyaf cyfoethog osgoi talu treth yn y DG trwy ddefnyddio bylchau yn y rheolau.

Gadawyd i'r argyfwng hwn ddigwydd gan Lywodraeth roddodd dŵf y banciau a'r sector ariannol o flaen popeth arall. Byddai Plaid Cymru yn diwygio'r banciau - gan wahanu banciau'r stryd fawr yr ydym oll yn dibynnu arnynt oddi wrth y banciau buddsoddi mawr oedd mor barod i hapchwarae gyda'n cynilion.

Mae Plaid Cymru eisiau gweld llyffetheirio bonysau banciau ar unwaith.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

# Plaid. Diwygio. Gwahaniaeth i Gymru.

**Mae ein heconomi, y system fancio a system seneddol y DG wedi eu hysgwyd i'w sail dros y misoedd diwethaf. Yr ydym yn dal i deimlo effaith y dychryniadau sefydliadol, gwleidyddol ac economaidd hyn, a does dim amheuaeth fod angen eu diwygio. Yn ganolog i ymgyrch Plaid Cymru y mae'r angen i ddiwygio'r arferion ariannol sy'n sail i'r system fancio, y sefydliadau gwleidyddol sy'n rheoli'r economi, a'r strwythurau a ddaliodd Gymru'n ôl dros y degawdau.**

## O les i bobl, nid bancwyr

Pobl gyffredin ar gyflogau cyffredin sy'n talu cost ddynol am yr argyfwng economaidd sydd wedi ei greu gan y blaid Lafur. Ac eto, dangosodd llywodraeth Lafur San Steffan ei gwir liwiau trwy roi gwarantau o dros £700 biliwn i achub y banciau, heb osod hanner digon o amodau. Hynny yw, maen nhw wedi gwobrwyo'r union sefydliadau sydd ar fai am yr argyfwng economaidd.

Bryd hynny ac yn awr, mae'r Blaid wedi dadlau fod angen i ni ddiwygio'r system fel ei bod o les i bobl, nid bancwyr. Dros flynyddoedd maith, mae Plaid Cymru wedi rhybuddio dro ar ôl tro na ddylid gorddibynnu ar Ddinas Llundain gan esgeuluso diwydiannau eraill. Mae ein cynaladwyedd economaidd dan fygythiad trwy ddadreoleiddio'r banciau; trwy fynd ati i annog lefelau uchel o ddyled bersonol, a thrwy orddibyniaeth ar wasanaethau ariannol am arian trethi.

Wrandawodd Llafur ddim ar y lleisiau oedd yn rhybuddio. Mewn ymateb, mae Plaid Cymru'n galw am ddiwygio llym a gwell rheoleiddio ar sectorau ariannol y DG a ledled y byd i atal ymddygiad ariannol byrbwyll. Dylid gwahanu bancio masnachol a buddsoddi, ac ni ddylid caniatáu i sefydliadau ariannol sy'n bwysig i'r sefydliad fasnachu berchnogi na buddsoddi mewn cronfeydd gwarchod na busnesau ecwiti preifat. Mae angen capio bonysau bancwyr, a dylid cael treth ar drafodion cyfnewid tramor.



## Cymru'n colli allan

Fel pe na bai'r argyfwng economaidd yn ddigon drwg i bobl gyffredin, mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn dal i golli o leiaf £300 miliwn y flwyddyn, lefel warthus o dan-gyllido a allai gyrraedd £8.5 biliwn dros y ddegawd nesaf. O ganlyniad i gamreolaeth Llafur ar yr economi, bydd cyllid cyhoeddus yn wynebu gwasgfa rhwng nawr a 2014, gyda chyfrifiadau sy'n seiliedig ar ragolygon y Trysorlys yn dangos fod adrannau gwario'r DG yn wynebu gostyngiad o 3.2% y flwyddyn sy'n arwain at gyfanswm gostyngiad o £72bn.

Ar sail y ffigyrau hyn, mae cyllideb y Cynulliad yn wynebu gostyngiad o ryw £2.8bn. Mae'n hanfodol felly i ddiwygio fformiwla annheg, sydd yn rheoli faint o arian sy'n cael ei wario ar ysgolion ac ysbytai Cymru. Mae Plaid Cymru yn croesawu adroddiad cyntaf Comisiwn Holtham sydd yn galw am fformiwla gyllido newydd yn seiliedig ar anghenion ac am i'r Cynulliad Cenedlaethol gael mwy o hyblygrwydd yn y ffordd mae'n gwario ei arian.

Rhag difrodi gwasanaethau rheng-flaen yn fwy byth, bydd Plaid Cymru yn mynnu mabwysiadu adroddiad interim Comisiwn Holtham ar gyllid y Cynulliad, a fyddai'n ychwanegu rhyw £300m at y bloc Cymreig. O gofio hyn, siom yw deall fod y llywodraeth Lafur bresennol yn San Steffan wedi methu ag ymrwymo i fwrw ymlaen â'i argymhellion hyd yma i ymdrin â'r diffyg yn y modd mae Cymru yn cael ei chyllido.

Cred y Blaid hefyd fod cymunedau Cymru wedi colli arian sylweddol o ganlyniad i ffocws Gemau Olympaidd 2012 ar Lundain ac am nad yw'r fformiwla bresennol wedi ailgyfeirio arian enfawr y Gemau i Gymru. Dan y rheolau presennol, does dim rheidrwydd ar y Trysorlys i gynyddu'r gyllideb Gymreig yn gyfrannol, ac nid yw hynny'n iawn.

## Yr angen am newid

Cefndir yr argyfwng economaidd ac ariannol yw gwarth y treuliau seneddol sydd wedi datgelu pa mor llwgr yw cyfundrefn San Steffan. Mae'r cyhoedd yn dal wedi gwylltio â hunan-fodlonrwydd gwleidyddion, a lefel isel iawn o hyder sydd gan bobl yn y dosbarth gwleidyddol ar hyn o bryd. Mae'r Blaid yn cefnogi diwygio radical ar y system dreuliau, gyda rheolau llymach a dulliau i gadw golwg ar bethau. Rhaid gosod tâl, pensiynau a lwfansau ASau gan gorff annibynnol, a dylid meincnodi cyflogau yn erbyn proffesiynau tebyg yn y sector cyhoeddus, a rhaid gwneud y system yn hollol dryloyw, gan gyhoeddi'r holl dreuliau yn rheolaidd.

Mae gan system San Steffan lawer i'w dysgu gan y Cynulliad Cenedlaethol gyda'i phrosesau tryloyw, atebol a democrataidd. Ond mae llawer i'w wneud eto. Galwodd Plaid Cymru dro ar ôl tro am ddiwygio etholiadol, gan ymgyrchu dros gynrychiolaeth gyfrannol fel bod pob pleidlais yn cyfrif, Ail Siambr etholedig, gostwng yr oedran pleidleisio i 16 a seneddau tymor-penodol.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

# Plaid. Tegwch. Gwahaniaeth i Gymru.

**Mater o degwch yw diwygio strwythurau economaidd a gwleidyddol. Mae pobl cyffredin wedi ymateb mewn syndod i'r argyfwng seneddol, bancio ac economaidd am i'r cyfan ddatgelu lefel o annhegwch sy'n ymylu ar fod yn anfoesol. Mae Plaid Cymru yn credu mewn tegwch. Hynny yw, dylai'r gwasanaethau sylfaenol sydd gennym oll hawl iddynt, megis iechyd, addysg a chyfiawnder, gael eu cyllido trwy drethi, a dylai pawb dalu ei gyfran deg.**

## Mwy yn dioddef tlodi

Ym 1997, addawodd Llafur roi terfyn ar dlodi plant, anghydraddoldeb ac ennill cyfiawnder cymdeithasol. Ac eto, mae'r llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi methu â chau'r bwlch tlodi hwnnw. Erbyn hyn, mae 7.5 miliwn o oedolion o oedran gwaith yn byw mewn tlodi (cynnydd o 800,000 ers 1998) yn y DG. Yn waeth byth, dal i ledu y mae'r bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog. Mae'r bwlch hwn ehangaf pan ddaw'n achos plant.

Geilw Plaid Cymru ar lywodraeth nesaf San Steffan i ddileu tlodi plant fel mater o flaenoriaeth. Mae tlodi pensiynwyr hefyd yn rhemp, gyda llawer yn gorfod wynebu'r dewis gwarthus rhwng bwyta pryd neu wresogi'r cartref. Mae darparu pensiwn parchus yn rhan o'r ateb i'r broblem. Felly, geilw Plaid Cymru am gyflwyno pensiwn byw i amddiffyn y rhai mwyaf bregus.

Mae llawer o bensiynwyr oedrannus heb fod yn hawlio credyd pensiwn o gwbl, gan eu bod dan y camargraff mai budd-dal, yn hytrach na hawl, ydyw. Er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau yn fforddiadwy, bydd y Blaid yn cyflwyno'r pensiwn byw yn ystod cyfnod y senedd nesaf i rai dros 80. Byddwn yn gwneud hyn trwy gyfyngu ar ryddhad treth incwm ar gyfraniadau pensiwn i'r gyfradd safonol. Ar hyn o bryd, mae cyfran fawr o'r rhyddhad treth hwn yn mynd i'r sawl sy'n ennill dros £150,000 y flwyddyn. Byddai'r mesur hwn yn decach ac yn sicrhau y bydd y rhai sy'n ennill y cyflogau mwyaf yn ysgwyddo'r gost. Byddai'r Blaid yn codi pensiwn sylfaenol y wladwriaeth i lefel y gwarant credyd pensiwn, yn gyntaf i bobl dros 80. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar dlodi pensiynwyr ac yn codi nifer sylweddol o bensiynwyr allan o dlodi. Yn y tymor hir, pan fydd cyflwr y cyllid cyhoeddus yn caniatáu, ein nod yw gostwng yr oed cymhwyso.



## Angen gweithredu

Mae pobl o oedran gwaith angen ein help hefyd. Tra bod Plaid Cymru mewn llywodraeth wedi gwario miliynau yn ystod y dirwasgiad hwn i amddiffyn miloedd o swyddi Cymreig, dim ond ychydig mae llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi gwneud, a hynny'n llawer rhy hwyr. Mae Plaid Cymru yn cydnabod, gyda mwy na 121,000 o bobl yn ddi-waith yng Nghymru, fod cost ddynol y dirwasgiad yn dal i gael ei deimlo, a bod yr effaith ar bobl ifanc - y 'genedlaeth goll' - oni wneir rhywbeth toc, yn destun pryder mawr.

Cred Plaid Cymru mewn polisïau economaidd a chymdeithasol o ail-ddosbarthu wedi eu hanelu at helpu'r sawl sydd ar incwm isel, y di-waith a'u teuluoedd, er mwyn iddynt gyrraedd safon byw digonol. Mae hyn yn golygu cyfradd dreth newydd o 50% ar y sawl sy'n ennill dros £100,000. Er mwyn helpu'r teuluoedd tlotaf, byddai'r Blaid hefyd yn codi'r lwfans treth personol o £1,000 a fyddai'n cymryd 1 miliwn o bobl ar incwm isel allan o'r rhwyd treth incwm yn gyfan gwbl. Geilw Plaid Cymru hefyd am Ddeddf Uchafswm Cyflog, fydd yn cysylltu uchafswm ac isafswm enillion er mwyn dechrau cau'r blwch cyflog enfawr a aeth fwy fyth allan o reolaeth dan lywodraeth Lafur San Steffan. Credwn hefyd y dylid codi cyfradd y Dreth Enillion Cyfalaf i gyfradd ffiniol y dreth incwm a delir.

Mae'r newidiadau i'r system drethiant rydym yn eu hargymell yn ddigonol i dalu am ein gwariant arfaethedig.

## Galluogi pobl i weithio

Tra bod y Blaid yn credu fod y rhan fwyaf o bobl sydd eisiau gweithio yn gwneud hynny, rydym hefyd yn cydnabod na all rhai pobl wneud hynny. Diffyg gofal plant yw un o'r rhwystrau mwyaf i gyflogaeth, ac mae'r Blaid yn benderfynol o ddarparu gofal plant fforddiadwy o safon uchel i bob teulu yng Nghymru sydd ei eisiau.

Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r Ddeddf Diwygio Lles gan Lafur sydd yn cysylltu taliadau budd-daliadau i waith ac yn bygwth atal budd-daliadau i'r rhai na all ateb gofynion y llywodraeth. Cred Plaid Cymru mai'r cyfan wnaiff y cynigion hyn fydd creu cylch dieflig o bobl sy'n byw rhwng tlodi mewn gwaith a thlodi heb waith.

Gwrthwynebwn ddefnyddio cosbau llym ar yr un filiwn o bobl sy'n hawlio budd-dal analluedd ac sy'n dioddef problemau iechyd meddwl difrifol. Yr ydym hefyd yn gwrthwynebu preifateiddio gwasanaethau dychwelyd-i-waith a rhoi profion cyffuriau gorfodol ar hawlwyr. Dylai pobl ddi-waith gael eu cefnogi'n ôl i waith sy'n gyson â'u galluoedd, eu medr a'u hamgylchiadau unigol.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

## Tegwch yn y gweithle

Mae'r Blaid yn credu y dylid sicrhau bod deddfau llafur yn gwarchod buddiannau gweithwyr gan gynnwys gorfodi'r isafswm cyflog cyfreithlon i ymdrin â gwarth cyflogau gwael ac amodau gweithio annheg. Yr ydym yn gyson wedi galw ar y llywodraeth Lafur yn San Steffan i fabwysiadu safonau Ewropeaidd ar hawliau cyflogaeth a byddwn yn parhau i alw am Siarter Hawliau Sylfaenol sydd yn rhwymo. Gan gydnabod fod cydraddoldeb yn y man gwaith hefyd yn holl-bwysig, geilw Plaid Cymru am reoleiddio er mwyn gofalu bod gan bob cwmni gyda mwy na 500 aelod o staff gynrychiolaeth gweithwyr ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

Byddwn yn parhau i weithio am gyfiawnder ac iawndal i gyn-löwyr sy'n dioddef clefydau anadlu a'r frest, a galwn am estyn darpariaethau iawndal uwch y glöwyr i gyn-chwarelwyr.

## Annog arloesi

Daeth yn amlwg y bydd datblygu economaidd cynaliadwy yn dibynnu ar dechnolegau newydd ac arloesol. Galwodd y Blaid dro ar ôl tro am raglen fuddsoddi helaeth i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd a chynhyrchu swyddi cynaliadwy. Er ein bod yn croesawu Strategaeth Swyddi Gwyrdd arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae angen gwneud mwy. Mae Plaid Cymru wastad wedi credu fod angen gallu amrywio trethi busnes er mwyn hyrwyddo busnes.

Credwn fod Cymru yn genedl o ddarpar- entrepreneuriaid. Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo'n llawn i annog datblygu mentrau cymdeithasol sy'n berchen i'r gymuned, ac mae'n croesawu adolygiad Rowlands i ddarparu cyfalaf twf. Cydnebydd yr adolygiad fod sector Busnesau Bach a Chanolig hyfyw yn hanfodol ar gyfer twf economaidd. Mae bwlch yn y ddarpariaeth i gwmnïau sy'n chwilio am, rhwng £2 a £10 miliwn mewn cyfalaf (er ein bod yn credu y gall fod angen trothwy is yng Nghymru).

Daeth yr adolygiad i'r casgliad hefyd nad yw'r farchnad ariannol bresennol a'i sefydliadau yn ymdrin â'r bwlch hwn a bod angen ymyryd o'r newydd. Credwn y dylai hyn fod ar ffurf cronfa cyfalaf menter i Gymru, wedi ei sefydlu gyda help Llywodraeth Cynulliad Cymru (ond yn annibynnol ohoni). Gallai'r gronfa godi cyfalaf a chyflwyno buddsoddiadau trwy fodel cyd-fuddsoddi, gyda phartneriaid cymeradwy o'r sector preifat.



## Addysgu'r genedl

Mae dyfodol ein heconomi yn dibynnu ar weithlu gydag addysg dda sy'n meddu ar lefel uchel o sgiliau. Gan fod addysg yn fater sydd wedi ei ddatganoli i raddau helaeth, mae Cymru wedi gallu dilyn ei llwybr ei hun o ran pennu blaenoriaethau. Mae rhoi cychwyn cadarn mewn bywyd i'n plant yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer eu dyfodol hwy, ond dyfodol Cymru.

Yr ydym wedi ymrwymo i gwricwlwm blynyddoedd cynnar - y Cyfnod Sylfaen - sydd yn pwysleisio dysgu trwy chwarae, a galwn am astudiaeth ddichonoldeb i ddarparu prydau ysgol am ddim i bobl plentyn o oedran ysgol babanod yng Nghymru. Yr ydym eisiau datblygu a gwella'r Fagloriaeth Gymreig, a byddwn yn parhau i wrthwynebu Ysgolion Sylfaen fel mater o egwyddor.

Geilw'r Blaid am adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru er mwyn ystyried y pynciau a'r dulliau o'u dysgu. Byddwn yn cefnogi cyflwyno TGAU iaith fodern yn orfodol mewn ysgolion uwchradd.

Byddwn yn ymgyrchu dros Wasanaeth Dinasyddiaeth Cenedlaethol i Gymru, cynllun gwirfoddol lle byddai pobl ifanc yn cwblhau blwyddyn o waith gwirfoddol cyn gadael yr ysgol. Credwn y byddai hyn yn helpu pobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o ddyletswydd gyhoeddus.

Yr ydym yn cefnogi Strategaeth Genedlaethol Addysg Gymraeg gan fod gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig hefyd allu derbyn darpariaeth trwy'r Gymraeg.

Yr ydym yn cefnogi Coleg Ffederal Cymraeg gyda ffrwd annibynnol o gyllid a chofrestr annibynnol o fyfyrwyr.

Byddwn yn parhau i gefnogi Coleg Filfeddygol i Gymru.

Ni fyddwn yn cefnogi unrhyw godiad pellach mewn ffioedd dysgu, a byddwn yn ceisio gwneud i ffwrdd â ffioedd dysgu pan ac os bydd cyllid cyhoeddus yn caniatáu.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

# Plaid. Lles. Gwahaniaeth i Gymru.

**Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i greu cenedl iachach trwy gael GIG o safon uchel, wedi ei gyllido'n gyhoeddus, sydd am ddim ar y pwynt cyflwyno. Gweledigaeth y Blaid yw un o wasanaethau iechyd wedi eu gwreiddio yng nghalon ein cymunedau, gwasanaeth iechyd sydd am hybu iechyd yn gymaint ag y mae am drin afiechyd, a gwasanaeth iechyd fydd yn sicrhau y caiff pobl Cymru, waeth beth yw eu cefndir na lle bynnag y maent yn byw, gyfle i fyw bywydau iach a hapus.**

**Dyma'r adeg i fuddsoddi yn y dyfodol iach hwnnw. Mae'r Blaid eisoes yn cyflawni llawer o'r blaenoriaethau y bu'n eu hyrwyddo ers blynyddoedd trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cymaint o flaenoriaethau polisi, fodd bynnag, nad oes modd eu gweithredu yn llawn o gofio gwendid y setliad datganoli, felly mae'n wir dweud fod llawer o waith eto i'w wneud ym maes polisi.**

## Presgripsiwn Pleidiol dros iechyd da

Geilw Plaid Cymru am i'r holl bwerau dros iechyd meddwl gael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cadarnhawn eto ein hymrwymiad i Ganolfannau Daioni Cymunedol ledled Cymru, a meddygfeydd gyda'r nos i feddygon teulu, a mynnwn bwerau datganoledig i ddeddfu ar faterion eraill yn ymwneud ag iechyd megis gwelyau haul, peiriannau gwerthu sigaréts, a rheoleiddio prisiau alcohol. Byddwn yn ymgyrchu hefyd i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau ambiwlans i'r Byrddau Iechyd Lleol er mwyn dileu'r Gwasanaeth Ambiwlans Cenedlaethol drud a biwrocrataidd presennol.

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gofal am ddim i bobl hŷn ac anabl, a galwn am drosglwyddo'r pwerau angenrheidiol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr ydym yn erbyn lwfansau sy'n destun prawf modd, a byddwn yn ymgyrchu i ddileu'r gwahaniaeth rhwng gofal nyrsio a gofal personol.

Rhaid rhoi cyllid digonol i Glinigau Iechyd Teulu a rhaid i bobl ifanc gael cyngor hawdd ei gael am iechyd rhywiol.

## Byw'n iach

Mae lle'r ydym yn byw yn cael effaith enfawr ar ein hiechyd a'n lles yn ogystal â'n gallu i gael gofal iechyd, addysg, hyfforddiant a swyddi. Cred Plaid Cymru y dylai pawb allu cael cartref fforddiadwy o ansawdd da yn yr ardal lle dymunant fyw. Yr ydym eisoes yn gweithio'n galed i gyrraedd y nod hwn yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond mae arnom angen llais Plaid Cymru cryf yn San Steffan ar faterion tai nad ydynt wedi eu datganoli.

Geilw Plaid Cymru am newid yn y modd o gyllido tai cymdeithasol fel nad yw rheolau benthyca'r Trysorlys bellach yn rhwystro awdurdodau lleol sydd eisiau codi tai cymdeithasol newydd a'u cynnal. Credwn y dylai cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol weithio ar faes chwarae gwastad.

Yr ydym wedi ymrwymo i roi defnydd i adeiladau gwag fel ein bod yn creu mwy o dai ac yn adfywio ein trefi a'n cymunedau. Cred Plaid Cymru y dylid gostwng TAW ar unwaith i 5% ar bob gwaith trwsio, cynnal a gwella tai. Mae Plaid Cymru yn deall yr anawsterau sy'n wynebu prynwyr tro-cyntaf wrth geisio camu ar y gris tai. Er mwyn ymdrin â hyn, mae Plaid Cymru yn galw am foratoriwm ar dreth stamp i brynwyr tro-cyntaf.

Cred Plaid Cymru y dylai prif ddeddfwriaeth ynghylch tai gael ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn dod â phenderfyniadau yn nes at y bobl.

## Mynd i'r afael â thlodi tanwydd

Mae gennym oll gyfrifoldeb i wella effeithlonrwydd ynni yn ein cartrefi ac i ddefnyddio mwy o ynni adnewyddol. Nid yn unig fod hyn yn ymateb i newid hinsawdd, ond mae hefyd yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd fel y gall pawb fforddio cadw'n gynnes yn eu cartrefi. Mae'r broblem yn cynyddu'n sylweddol gyda chwarter o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn dioddef tlodi tanwydd. Mae'r bil ynni ar gyfartaledd yn awr yn fwy na dwbl yr hyn oedd bum mlynedd yn ôl, ac yng Nghymru, mae defnyddwyr yn talu rhyw 5% yn fwy na gweddill y DG.

Ar y llaw arall, mae elw cwmnïau ynni wedi codi'n ddramatig. Bydd y Blaid yn parhau i ymgyrchu am dreth unwaith-am-byth ar gwmnïau ynni, i helpu i dalu am grantiau ar gyfer insiwleiddio i deuluoedd ar incwm isel a gostyngiad mewn TAW ar danwydd ynni. Byddwn hefyd yn gweithio i wneud yn siŵr fod y tariffau bwydo-i-mewn newydd yn annog ynni adnewyddol ar raddfa gymunedol.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

## Diogel dan do?

Mae angen i berson deimlo'n saff yn ei gartref a'i gymuned. Cred Plaid Cymru fod llawer o resymau yn arwain pobl i droseddu. Yr ydym yn credu fod angen rhoi mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr a thystion fel bod pobl yn teimlo'n ddiogelach yn eu cymunedau. Yr ydym wedi ymrwymo i gyfiawnder adferol a dedfrydu cymunedol lle bo hynny'n briodol.

Galwn am strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol i Gymru, mwy o lefydd a rhaglenni adsefydlu wedi cyffuriau, addysg am gyffuriau ac alcohol ym mhob ysgol yng Nghymru a gwell cyfleusterau i bobl ifanc yn eu cymunedau. Galwn am isafswm pris yr uned o alcohol sef 50c i gychwyn, ynghyd â rheolaeth lymach ar hysbysebu a marchnata alcohol.

Rydym yn cefnogi datblygu Strategaeth Genedlaethol i Gymru o Atal Trais yn Erbyn Menywod. Bydd yn ymdrin â phob ffurf ar drais gan gynnwys cam-drin yn y cartref, masnachu merched, 'menywod heb allu cael gafael ar gyllid cyhoeddus', priodasau dan orfodaeth, ac ymosod rhywiol. Geilw Plaid Cymru am fwy o adnoddau i Ganolfannau Argyfwng Trais - un yn unig sydd yng Nghymru - a hefyd am Ganolfannau Cyfeirio Ymosod Rhywiol, gan mai dim ond pump sydd yng Nghymru.

## Cyfiawnder teg

Byddwn yn parhau i fynnu rheolaeth dros ein system cyfiawnder a throsedd yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys yr heddlu a chyfiawnder ieuenctid, fel y gall Cymru fynd i'r afael go-iawn â phroblemau cymhleth diogelwch unigol a chymunedol, ac adsefydlu. Yn hytrach na buddsoddi mewn carchardai 'Titan' diangen, galwn am godi carchardai ieuenctid a menywod, a chefnogwn yn llawn y galw am garchar yng ngogledd Cymru ar waethaf penderfyniad llywodraeth Llafur San Steffan i roi'r gorau i gynlluniau am safle.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgyrchu am reithgorau dwyieithog ac awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru. Bydd Plaid Cymru yn parhau â'r frwydr dros hawliau sifil ac yn ymgyrchu yn erbyn unrhyw geisiadau gan unrhyw lywodraeth San Steffan yn y dyfodol i fygu rhyddid barn. Byddwn yn parhau i ymgyrchu yn erbyn y ddeddfwriaeth i wneud cwest dirgel yn bosibl, i fonitro'r Rhyngrwyd, y cardiau adnabod gwastraffus, y gofrestr hunaniaeth DNA, a chadw pobl dan amheuaeth am gyfnodau hwy heb eu cyhuddo.

# Plaid Cynaladwyedd. Gwahaniaeth i Gymru.

**Yr argyfwng hinsawdd sy'n wynebu'r byd yw un o'r heriadau gwleidyddol bwysicaf mewn cymdeithas. Mae dyfodol ein planed yn dibynnu ar weithredu brys i leihau allyriadau a'r angen i fyw mewn dull gwahanol, mwy cynaliadwy. Mae Plaid Cymru yn rhoi'r argyfwng amgylcheddol a datblygu cynaliadwy wrth galon ei pholisïau. Mae'r byd yn wynebu argyfwng triphlyg pegwn olew, yr argyfwng hinsawdd a'r dirwasgiad economaidd byd-eang.**

## Lleihau ein ôl-troed garbon

Ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ostwng allyriadau carbon-gyfatebol o 3% y flwyddyn erbyn 2011 ym meysydd y cymwyseddau datganoledig. Yr ydym bellach yn cydnabod fod newid hinsawdd yn fwy difrifol na sylweddolwyd ynghynt. Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol, gyda chefnogaeth drawsbleidiol, i ostwng allyriadau o 40% islaw lefelau 1990 erbyn 2020. Bydd y Blaid yn gweithio i ofalu bod y penderfyniad hwn yn cael ei droi'n gamau ystyrlon ac effeithiol er mwyn cyrraedd y gostyngiad llawn, a geilw ar y llywodraeth yn San Steffan i ddilyn arweiniad Cymru.

Byddwn yn parhau i wrthwynebu defnyddio llosgyddion gwastraff ac i gefnogi targedau cadarn ar gyfer atal gwastraff. Yr ydym yn cefnogi targedau ailgylchu o 80% o wastraff domestig erbyn 2020 a chyflwyno treth tirlenwi uwch. Byddwn yn ymgyrchu dros newid mewn deddfwriaeth caffael cyhoeddus fel y gall awdurdodau lleol ffafrio deunyddiau o ffynonellau eilgylch a lleol.

Mae nifer cynyddol o bobl eisiau tyfu eu bwyd eu hunain, ac eto, mae rhestrau aros hir mewn llawer man. Mae Deddf Rhandiroedd 1908 yn caniatáu i bobl ddeisebu eu hawdurdod lleol am dir ar gyfer rhandiroedd. Gwrthod ceisiadau o'r fath fel mater o drefn y mae'r rhan fwyaf o awdurdodau. Geilw Plaid Cymru am ddiwygio'r Ddeddf i gwrdd â'r galw o du Cymru fel y gall mwy o bobl dyfu eu bwyd eu hunain.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

## Bwydo’r Bobl

Cred Plaid Cymru fod amaethu yn ganolog i ffyniant a chynaladwyedd ein cymunedau gwledig. Mae llawer her anodd yn wynebu’r diwydiant, ac un o’r rhai mwyaf yw cynyddu cynhyrchu i fodloni’r galw byd-eang am fwyd, gan ostwng ei effaith amgylcheddol ar yr un pryd. Gyda’r tebygrwydd y bydd cymorthdaliadau Ewropeaidd traddodiadol yn newid, bydd angen i’r diwydiant amaeth gael ei yrru fwy gan y farchnad a gwneud elw. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio’n agos gyda’r diwydiant i wneud hyn, a thrwy hynny, yn gwneud ffermydd teuluol yn fwy proffidiol ledled Cymru.

Mae angen llais Plaid Cymru yn San Steffan ar amaethyddiaeth er mwyn hybu buddiannau ffermwyr, er enghraifft, trwy gadarnhau ein hymrwymiad i gadw Cymru yn rhydd o GM. Rhaid i ni hefyd sicrhau y bydd buddiannau ffermwyr wrth graidd trafodaethau’r DG gydag Aelod-Wladwriaethau eraill yr UE pan adolygir y Polisi Amaeth Cyffredin yn 2013.

Mae angen i ni wneud yn siwr y bydd yr ‘Ombwdsmon Archfarchnadoedd’, y bu’r Blaid yn galw amdano ers amser, yn meddu ar ddannedd er mwyn gofalu y caiff cynhyrchwyr Cymru chwarae teg. Mae angen i ni wthio am newidiadau i ddeddfwriaeth labelu bwyd y DG fel bod gan ddefnyddwyr wybodaeth glir am y ‘man amaethu’. Bydd Plaid Cymru hefyd yn gwrthwynebu gosod treth da byw Trysorlys y DG ar ffermwyr Cymru.

## Llais i Gymru ar ynni

Mae sicrhau bod gan Gymru lais yn ganolog i flaenoriaethau ynni hefyd Mae Plaid Cymru yn mynnu fod yr holl bwerau dros bolisi ynni yn cael eu datganoli’n llawn i’r Cynulliad Cenedlaethol. Gallai Cymru fod yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu ynni erbyn 2020.

Rhaid i Gymru fanteisio yn llawn ar ei hadnoddau o ran ynni adnewyddol, a chefnogi micro-gynhyrchu a chynlluniau eraill cynaliadwy ar raddfa fechan i gynhyrchu ynni, gan gynnwys pŵer y llanw a’r môr, ynni gwynt ar dir a môr, hydro a biomas. Rhaid cyflymu’r symudiad tuag at gynhyrchu ynni adnewyddol ar raddfa fawr yng Nghymru os ydym am weld y canlyniad a ddymunwn o fewn yr amser angenrheidiol.

Serch hynny, yr ydym yn gwrthwynebu’r Comisiwn Cynllunio Seilwaith annemocrataidd yn llwyr. Dylid penderfynu yn ddemocrataidd ar broffil ynni Cymru yn y dyfodol, a hynny gan gorff sy’n atebol i bobl Cymru. Galwn am safonau perfformiad allyriadau i bob pwerdy newydd, a chadarnhawn ein gwrthwynebiad i godi unrhyw orsaf niwclear newydd yng Nghymru.

Galwn am ymchwil i greu Grid Pŵer Clyfar Ewropeaidd er mwyn rhannu ynni adnewyddol ledled Ewrop.



## Teithio cynaladwy

Ni allwn fynd i’r afael â newid hinsawdd heb ystyried effaith trafnidiaeth. Ni fydd y DG yn cyrraedd y targedau o ostwng allyriadau carbon o 80% erbyn 2050 os bydd teithio mewn awyrennau yn dal i ehangu. Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu cynlluniau am drydedd rhedfa yn Heathrow, sydd yn enghraifft arall o feddwl rhanedig a dryslyd llywodraeth Lafur San Steffan. Galwn am wneud i ffwrdd â’r cymorthdaliadau cudd i deithio awyr a chyflwyno treth ar danwydd awyrennau. Dylai’r arian a gynhyrchir fel hyn gael ei fuddsoddi mewn gwella’r rhwydwaith cludiant cyhoeddus, a thorri’n sylweddol ar brisiau tocynnau trenau a bysus pellter maith.

Mae Plaid Cymru wedi dangos mewn llywodraeth ei bod wedi ymrwymo i greu system o gludiant cyhoeddus modern ac integredig i Gymru gyfan. Yr ydym yn cydnabod na fydd y system reilffyrdd fyth yn cyrraedd ein hamcanion amgylcheddol oni fydd yn rhad ac yn ddeniadol i’w defnyddio.

Ni fydd hynny’n digwydd heb ymrwymiad sylweddol a chyson o arian cyhoeddus. Galwn eto felly am ddwyn y reilffyrdd yn ôl i ddwylo cyhoeddus. Gyda llawer o’r cyfrifoldeb am y rhwydwaith rheilffyrdd yn dal yn San Steffan, rhaid i lywodraeth y DG chwarae ei rhan hefyd. Mae angen cysylltiadau rheilffordd trydan rhatach a chyflymach o Gymru i dir mawr Ewrop. Galwn am adolygiad o bwerau’r Cynulliad Cenedlaethol dros gludo nwyddau, a throsglwyddo nwyddau trwm o’r ffyrdd i’r rheilffyrdd yn raddol.

Am fod Plaid Cymru yn cydnabod nad oes modd osgoi teithio ar y ffyrdd mewn llawer man o Gymru, yr ydym wedi ymrwymo i uwchraddio’r prif ffyrdd allweddol, yn enwedig rhwng y de a’r gogledd.

## Cadw mewn cysylltiad - cysylltu Cymru â’r byd

Wrth gwrs, mae mwy i hyn na chysylltu pobl â llefydd. Mae hefyd yn fater o sicrhau bod Cymru wedi ei chysylltu â gweddill y byd yn yr ystyr ddigidol. Rhaid harneisio technoleg newydd er mwyn rhoi llais cryf i Gymru ar lwyfan y byd, gan ofalu nad oes unrhyw “fannau gwag” gan fod llawer rhan o Gymru heb allu cael defnydd o ddarpariaeth band llydan o gwbl neu sy’n ei dderbyn ond yn ei gael yn araf iawn.

Cred Plaid Cymru y dylai datblygiadau band llydan yn y dyfodol fod yn seiliedig ar isafswm cyhoeddus i bawb, sef y cynnig presennol o 2Mbps. Geilw Plaid Cymru am ymchwil i greu rhwydwaith band llydan cenedlaethol eithriadol o gyflym i Gymru, gan roi diwedd ar ddegawdau o danfuddsoddi yn ein gwasanaethau cyfathrebu cyhoeddus. Yr ydym hefyd yn cefnogi gorfodi cwmnïau ffonau symudol a band llydan i rannu rhwydweithiau.

Plaid. Gwahaniaeth i Gymru.

# Plaid y Byd. Gwahaniaeth i Gymru.

**Mae Plaid Cymru yn falch o dreftadaeth unigryw Cymru, ac fel plaid ryngwladol, mae eisiau i'r genedl allu chwarae ei rhan yn y gymdeithas fyd-eang. Gan sylweddoli bod llawer o'r problemau sy'n wynebu'r byd yn croesi ffiniau rhwng gwahanol wledydd, cred y Blaid fod gan Gymru lawer i'w gynnig i'r byd yn ddiwylliannol, yn economaidd a chymdeithasol.**

## Ein trysor cenedlaethol

Mae'r iaith Gymraeg yn perthyn i holl bobl Cymru, lle bynnag maent yn byw, pa bynnag iaith y maent yn siarad. Y lle iawn i ddeddfu ar y Gymraeg yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a dylai'r holl bwerau yn ymwneud â'r iaith gael eu datganoli. Bydd Plaid Cymru yn deddfu i roi statws swyddogol i'r Gymraeg, gan greu hawliau i unigolion dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a chreu swydd Comisiynydd iaith i ofalu yr eir ati i ddiogelu a hybu buddiannau siaradwyr Cymraeg.

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i amddiffyn darlledu a chyfryngau rhanbarthol o safon uchel, gan gydnabod pwysigrwydd lluosogrwydd mewn newyddion a rhaglennu teledu yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ymgyrchu i gynyddu cyllid S4C er mwyn cefnogi datblygu gwasanaethau digidol a'r alwad am fwy o help i gyfryngau print Cymraeg.

## Cenedl hyderus

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i Gymru annibynnol fel aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn parhau i gefnogi diwygio democrataidd pellach ar yr UE. Mynnwn gael mwy o gynrychiolaeth i Gymru yn yr UE. Mae hyn yn cynnwys nifer teg o ASE i Gymru, swyddfa i Senedd Ewrop yng Nghymru, cylchdroi swydd y Comisiynydd Ewropeaidd ac, yn anad dim, pleidlais i Gymru yng Nghyngor y Gweinidogion.

Fel cenedl groesawgar, mae Plaid Cymru yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr mewnfudwyr i Gymru. Mae ein cenedlaetholdeb sifig yn dathlu goddefgarwch, cyd-ddeall a dathlu gwahaniaethau. Yr ydym yn condemnio'r sgorio pwyntiau a ddefnyddir gan bleidiau eraill a'r ymgreinio i ragfarnau senoffobaidd di-sail yn y ddadl ar fewnfudo. Mae Plaid Cymru hefyd yn cefnogi hawliau ceiswyr lloches i weithio yn y DG tra'u bod yn aros i benderfyniadau statws gael eu gwneud, a galwn am gyflymu'r system loches ddiangen o gymhleth. Yr ydym yn condemnio'r arfer o gadw ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd y wlad, yn enwedig plant, mewn canolfannau "cadw" neu "symud" fel mesur cosb creulon.

## Cyfiawnder byd-eang

Pleidleisiodd ASau Plaid Cymru yn erbyn y rhyfel anghyfreithlon yn Irac, a'r rhyfel yn Afghanistan. Mae'r Blaid yn cefnogi cilio yn drefnus a graddol erbyn diwedd 2011 fan bellaf. Tra'u bod yno, dylai'r dynion a'r merched ifanc yn y lluoedd arfog gael eu gwarchod a derbyn gofal.

Geilw Plaid Cymru am Ddeddf Lles Milwrol ar frys i hybu a diogelu iechyd a lles corfforol a meddyliol aelodau o'r lluoedd arfog. Mae hyn yn cynnwys ôl-ofal cyson, cyngor cyfreithiol a chefnogaeth cwnsela i gyn-filwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â gwell iawndal, tai, gofal iechyd a thriniaeth am gamddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Galwn am roi'r gorau i raglen adnewyddu wastraffus Trident sydd yn debyg o gostio hyd at £76 biliwn, a chanslo contractau'r Typhoon Eurofighter. Galwn hefyd am roi'r gorau i gynlluniau am ddwy long cludo awyrennau newydd (prosiect sy'n debyg o gostio tua £10 biliwn).

Byddwn yn parhau i bwyso am bolisi tramor moesegol sydd yn pwysleisio atal gwrthdaro a galwn am weithredu gwirioneddol effeithiol ar y fasnach arfau ryngwladol, gan gynnwys cytundeb newydd a chod ymddygiad llym sydd yn cyfyngu ar allforio arfau, yn ogystal â gwaharddiad llwyr ar ffrwydron tir, bomiau clwstwr a ffosfforws gwyn, a gwaharddiad rhyngwladol ar unwaith ar ddefnydd milwrol o wraniwm.

Yr ydym yn cefnogi'r ymgyrch i sefydlu Sefydliad Heddwch Cymreig i'n helpu i hybu heddwch a chyfiawnder ledled y byd. Mae Plaid Cymru hefyd yn cydnabod y gwrthwynebiad i ddatblygiad arfaethedig Coleg Hyfforddi Amddiffyn Sain Tathan. Mae gennym felly amheuon, a disgwyliwn am sicrwydd y defnyddir y swm enfawr hwn o arian cyhoeddus yn ofalus er mwyn creu y swyddi o ansawdd uchel a addawyd er mwyn rhoi hwb i'r economi leol.

Byddwn yn parhau i ymgyrchu dros hawliau cenhedloedd lleiafrifol a siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop ac mewn gwledydd a allai ddod yn aelodau o'r Undeb yn y dyfodol, megis Twrci.

Bydd y Blaid yn pwyso ar lywodraeth DG i anrhydeddu'r ymrwymiad i gyflwyno 0.7% o GDP fel cymorth rhyngwladol, a byddwn yn parhau i ymgyrchu dros ddileu dyledion y gwledydd sy'n datblygu gan na allant eu fforddio. Galwn am fwy o adnoddau i Gronfa Ymaddasu'r CU, i helpu'r gwledydd sy'n datblygu i ymaddasu i effeithiau newid hinsawdd. Mynnwn gynrychiolaeth gyfartal i'r gwledydd sy'n datblygu yn y broses o benderfynu ar weithredu i drin newid hinsawdd. Yr ydym hefyd yn cadarnhau eto ein cefnogaeth i'r mudiad Masnach deg rhyngwladol. Mynnwn fod angen diwygio trefniadau llywodraethu sefydliadau rhyngwladol megis Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn ystyried hawliau dynol, yr amgylchedd a hawliau gweithwyr.

# Gwnewch mwy na darllen – gwnewch rywbeth

O wrando ar wleidyddion pleidiau Llundain yn lladd ar ei gilydd, mae'n hawdd credu weithiau fod gwleidyddiaeth ac etholiadau yn fwy am bersonoliaethau nac am ddewisiadau. Nid fel yna mae Plaid Cymru yn gweld pethau. Rydym ni'n credu fod pob etholiad yn fater o wneud dewis am y math o ddyfodol yr ydym eisiau ei weld, i Gymru a'r byd. Ac yr ydym ni'n credu y gallwn ddewis dyfodol gwahanol. Wir, does dim rhaid i bethau fod fel hyn.

Mae Plaid Cymru yn blaid sy'n ymboeni o ddifrif am Gymru a'i phobl. Mae popeth a ddywedwn ac a wnawn wedi anelu at hynny. Mae gennym ni weledigaeth o'r math o genedl y gall Cymru fod.

Rydym eisiau newid. Rydym eisiau cymdeithas sydd wedi ei llunio o gwmpas anghenion pobl, nid anghenion y criw bach gwleidyddol na'r bancwyr a hapfasnachwyr.

Rydym eisiau tegwch cyllidol i Gymru, yn y ffordd yr ydym yn cael ein cyllido a'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r arian sydd ar gael i ni. Rydym eisiau system o drethi a budd-daliadau sy'n golygu bod y sawl sy'n fforddio talu yn gwneud hynny, a bod y rhai sydd angen help yn ei dderbyn.

Rydym eisiau adeiladu ein heconomi o gwmpas diwydiannau sy'n defnyddio adnoddau'r ddaear mewn dull cynaliadwy. Rydym eisiau lleihau ôl troed carbon Cymru trwy weithredu fel llywodraeth ac fel unigolion.

Rydym eisiau system addysg sy'n rhoi i'n holl bobl y sgiliau maent eu hangen a'u heisiau. Rydym eisiau gwasanaeth iechyd sydd wedi ei lunio o gwmpas anghenion ein pobl a'n cymunedau. Ac yr ydym eisiau i'r naill wasanaeth a'r llall fod ar gael i bawb, am ddim ar bwynt eu defnyddio.

Rydym eisiau Cymru sy'n hyderus am ei lle yn y byd, a lle mae ei holl bobl ag ymdeimlad o berthyn ac o berchenogaeth.

I grynhoi, mae gennym uchelgais enfawr dros Gymru, ond rydym yn credu fod modd ei gyrraedd. Gobeithio y byddwch chi'n rhannu ein gweledigaeth a'n cred yng ngallu ein cenedl i'w gwireddu.

Mater o ddewisiadau yw'r etholiad hwn, a phobl Cymru fydd yn gwneud y dewisiadau hynny. Mae dewis arall gwirioneddol yn lle'r dyfodol sy'n cael ei gynnig gan y pleidiau Llundeinig, ac yr ydym wedi lleisio'r dyfodol hwnnw yn y maniffesto hwn. Gallwch chi ddewis y dyfodol arall hwnnw, neu ddewis mwy o'r un peth. P'run fydd hi?



Modelau sydd yn y lluniau yma ac felly nid yw unrhyw farn a fynegir o reidrwydd yn perthyn i'r bobl sydd yn ymddangos yma.